OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 2991

# Gorchymyn Deddf Iechyd 1999(Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2000

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2000.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1977" ("*the 1977 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd 1999.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

**Diwrnod penodedig**

**2.**—(1) 1 Rhagfyr 2000 yw'r diwrnod penodedig y daw pob un o ddarpariaethau'r Ddeddf a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn i rym i'r graddau a bennir yno.

(2) 1 Ionawr 2001 yw'r diwrnod penodedig y daw pob un o ddarpariaethau'r Ddeddf a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn i rym i'r graddau a bennir yno.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D Elis Thomas*
7 Tachwedd 2000 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1977 p. 49.
(**2**) 1998 p.38.